Adnabod Awdur

Eurgain Haf

Llyfrau gan Eurgain Haf:
Fferm Ffion £5.99
Stablau Seren £5.99
Siencyn a Dan Draed £4.99
Dan Draed dan Glo £4.99
Cyhoeddwyd gan y Dref Wen

Pan oeddwn i'n blentyn fe dreuliais i oriau yn chwilota am dylwyth teg, cewri a chorachod. Bues i'n cloddio am dwneli tanddaearol ac yn ffureta am ffynhonnau hud oedd â chysylltiad â'r Brenin Arthur. Yn rhyfedd iawn, ddois i fyth o hyd iddyn nhw! Ond yr hyn y gwnes i ei ganfod oedd fy nychymyg byw.

Maen nhw'n dweud fod ardal yn gallu dylanwadu ar berson. Wel mae hynny yn wir yn fy achos i. Cefais fy magu mewn pentref bach o'r enw Penisa'r-waun sy'n swatio yng nghesail yr Wyddfa yn Eryri. Mae'r ardal o gwmpas yr Wyddfa yn frith o chwedlau o bob math ac roeddwn i wrth fy modd yn gwrando arnyn nhw ac yna'n mynd ati i greu straeon dychmygol a'u sgwennu nhw i lawr.

Ro'n i wrth fy modd yn darllen hefyd. Yn ôl mam, roeddwn i byth a beunydd yn swnian am stori a hynny'n aml ym mherfeddion nos. Felly, fe benderfynodd y byddai'n fy nysgu i ddarllen pan oeddwn yn ifanc iawn fel y câi lonydd i gysgu! O hynny ymlaen, doedd dim stop arna i. Mae darllen wrth gwrs yn hanfodol os ydych am fod yn awdur gan mai dyma sut yr ydych yn dysgu geirfa, ymadroddion, idiomau, cymariaethau a dywediadau newydd.

Yna fe ddechreuais i gystadlu yn yr eisteddfod bentref ac yn yr Urdd ac ennill gwobrau am lenydda. Fe roddodd hyn hyder i mi barhau i ysgrifennu.

Dwi wedi ysgrifennu straeon byrion, ambell ddrama a sgriptiau ar gyfer y teledu. Ond fy mhleser mwya' ydi ysgrifennu llyfrau ar gyfer plant. A dwi'n croesi fy mysedd eich bod chi'n cael cymaint o fwynhad o'u darllen ag yr ydw i'n ei gael o'u hysgrifennu!

2009 Lluniau: Huw John

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
LLYFRAU AR-LEIN BOOKS ON-LINE

Adnabod Awdur

Eurgain Haf

Dyddiad Geni: 17 Gorffennaf 1972

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Ym mhentref Penisa'r-waun yn Eryri ond erbyn hyn dwi'n byw ym Mhontypridd efo fy ngŵr, Ioan.

Ble cawsoch chi eich addysg? Yn Ysgol Gynradd Tan-y-coed, Penisa'r-waun, Ysgol Uwchradd Brynrefail ac yna Prifysgol Aberystwyth.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Ro'n i wrth fy modd yn mynd i aros i Lan-llyn gyda'm ffrindiau ac ro'n i'n hoff o wersi Cymraeg a pharatoi at yr eisteddfod ysgol. Doeddwn i ddim yn edrych ymlaen at y gwersi chwaraeon, yn enwedig pêl-rwyd.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny? Milfeddyg.

Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn? ***The Magic Faraway Tree*** gan Enid Blyton a llyfrau T. Llew Jones.

Beth yw eich hoff ddiddordebau? Dwi'n hoff o ferlota a cherdded mynyddoedd . . . ac ysgrifennu, wrth gwrs.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Gwybod fod pobl eraill yn hapus, a thywydd braf.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Difaterwch, yn enwedig tuag at yr amgylchedd. Mae pobl sy'n greulon tuag at anifeiliaid yn fy nghorddi hefyd.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu? Fe enillais Gwpan y Prif Lenor yn eisteddfod bentref Penisa'r-waun pan oeddwn i'n 8 oed, a sawl gwaith wedi hynny, ac fe roddodd hyn yr hwb a'r hyder i mi barhau i ysgrifennu.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? ***Fferm Ffion***.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu? Dim bob tro. Weithiau daw syniad fel bollt o unlle ac mae'n rhaid i mi ei ysgrifennu i lawr yn syth. Dro arall does dim yn tycio a byddaf yn syllu am oes ar y sgrin wag. Ond does dim i guro'r teimlad o roi'r atalnod llawn olaf ar ddiwedd eich gwaith.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? O bawb a phopeth. Weithiau mae'r syniadau'n dod wrth deithio yn y car, neu wrth glywed sgwrs ar y radio neu'r teledu neu wrth ddarllen erthygl yn y papur newydd. Dwi'n cario llyfr nodiadau o gwmpas efo fi er mwyn ysgrifennu'r syniadau i lawr.

Ydych chi'n teimlo ei fod yn bwysig i ysgrifennu mewn dull cyfoes i apelio at gynulleidfa ifanc? Ydw a nac ydw. Credaf ei fod yn bwysig fod y gwaith yn ffres ac yn gyfoes ond mae'n rhaid cofio fod pethau'n dyddio yn gyflym iawn. Mae themâu oesol fel cyfeillgarwch, cariad a stori antur yn mynd i apelio am byth.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Byddwch yn hyderus yn eich gwaith ac os cewch chi gyfle, ymgeisiwch mewn cystadlaethau ysgrifennu neu mewn eisteddfodau. Dyma'r ffordd orau i gael beirniadaeth ar eich gwaith a datblygu eich hun fel awdur.

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi? Mae rhannau ohonof yng nghymeriadau Ffion (***Fferm Ffion***) a Seren (***Stablau Seren***), gan eu bod nhw, fel finnau, yn hoff iawn o anifeiliaid..

Pa un yw eich hoff lyfr? ***Dan Draed dan Glo***.

Pa un yw eich hoff gymeriad? Siani Seicig o'r llyfr ***Siencyn a Dan Draed*** oherwydd hoffwn i hefyd allu darogan y dyfodol. Fe fyddwn i werth fy ffortiwn!

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Hoffwn i fod ychydig yn dalach – dim ond 5 troedfedd ydw i. Ond fel mae mam yn ei ddweud, "Ychydig o beth da gewch chi!"

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau? ***Rownd a Rownd*** a ***Holby City***.

Beth yw eich hoff fwyd? Unrhyw fath o fwyd môr.

Beth yw eich hoff le yn y byd? Ble bynnag mae fy nheulu a'm ffrindiau. Dwi'n hoff iawn o Seland Newydd hefyd wedi i fy ngŵr a minnau fod yno am wyliau. Mae'n wlad debyg iawn i Gymru ond mae popeth llawer iawn yn fwy.

Oes gyda chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall? Mae gen i ddwy goron a enillais am ysgrifennu – un yn Eisteddfod yr Urdd a'r llall yn Eisteddfod Môn. Maen nhw'n hardd iawn ond yn bethau andros o anodd i'w glanhau!

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Bili fy nghath.

Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru? Fe lwyddais i redeg marathon Llundain unwaith – byth eto!